



**bwrdd gweithredol
gofal lliniarol cymru**
**palliative care cymru
implementation board**



DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Gofal Cartref Hosbis George Thomas

Adolygiad o Ofal Diwedd Oes gan Gymheiriaid

Dyddiad yr ymweliad 14 Mawrth 2013

Adolygiad o Ofal Diwedd Oes gan Gymheiriaid

Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Gofal Cartref Hosbis George Thomas

Dyddiad yr Ymweliad : 14 Mawrth 2013

Tîm Adolygu Gofal Diwedd Oes gan Gymheiriaid

Enw (Llythrennau bras)	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Caroline Usborne	Cyfarwyddwr Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Tracy Livingstone	Cyfarwyddwr Nyrsio a Gwasanaethau Cleifion	Hosbis Nightingale House, Wrecsam
Dinah Hickish	Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch	Hosbis St Kentigern, Llanelwy
Val Jones	Adolygwr Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Tîm Hwyluso Veronica Snow : Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gweithredol Gofal Lliniarol Gareth Brydon : Arolygydd Cynorthwyol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru		

Teitl y Sefydliad	Gofal Hosbis George Thomas	
Teitl y tîm	Tîm Gofal Hosbis George Thomas	
Teitl Dyddiad Adolygu	14 Mawrth 2013	
Enw (Argraffwch)	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Margred Capel	Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol	Gofal Hosbis George Thomas
Terri Gazzì	Arbenigwr Nyrsio Clinigol Arweiniol	Gofal Hosbis George Thomas
Mel Lewis	Nyrs Arweiniol – Gofal Lliniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Crynodeb o'r Adolygiad

Mae Gofal Hosbis George Thomas yn wasanaeth gwych gydag arweinyddiaeth glinigol gref. Darperir y gwasanaeth o fewn fframwaith cadarn o Lywodraethu Clinigol ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr lleol eraill a Chomisiynwyr y Bwrdd Iechyd.

Mae gan Dîm Gofal Hosbis George Thomas bolisi Gweithredol a pholisi Atgyfeirio eglur a chryno, yn ogystal ag offeryn dibyniaeth i asesu angen a meini prawf rhyddhau sydd wedi eu seilio ar adolygiadau rheolaidd o gleifion. Cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir CANISC i gofnodi'r holl wybodaeth. Mae pob claf newydd yn gweld yr Ymgynghorydd/Cofrestrydd Arbenigol a'r Nyrs Glinigol Arbenigol ar y cyd. Trafodir pob claf newydd yng nghyfarfod wythnosol y Tîm Amlddisgyblaethol a chytunir ar gynllun gofal. Mae polisi cyfathrebu wedi ei sefydlu a rhoddir gwybod i feddygon teulu am gyfranogiad tîm Gofal Hosbis George Thomas yng ngofal y claf. Adolygir cleifion yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol fel bo'r angen. Adolygir llwyth achosion pob Nyrs Glinigol Arbenigol bob mis. Dywedodd y tîm y ceir systemau cyfathrebu cadarn â darparwyr gwasanaeth gofal lliniarol lleol eraill, sef Canolfan Ganser Felindre a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Roedd amrywiaeth o archwiliadau ar gael, yn dangos defnydd da o archwiliadau clinigol. Mae arolygon cleifion yn nodi lefel uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymhlith y cleifion. Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, fel yr unig gomisiynwyr, yn cyfarfod â thîm gofal yr hosbis bob chwarter mewn cyfarfod adolygu perfformiad ac yn adrodd y ceir gwaith integredig da, a bod tîm gofal yr hosbis yn cymryd rhan yn y grŵp strategol lleol.

Mae llawer o feysydd o arfer da y gellir eu rhannu, yn enwedig yr ymrwymiad i Archwilio a'r defnydd o hynny i newid arferion gwaith.

Mae gan yr Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol lwyth gwaith sylweddol; byddai angen adolygu'r patrymau gwaith pe byddai unrhyw gynnydd mewn atgyfeiriadau, er mwyn sicrhau nad oes gormod o lwyth gwaith gan yr ymgynghorydd a bod ei harbenigedd clinigol yn parhau i gael ei ddefnyddio er budd gorau'r cleifion.

Gallai gostyngiad o 5% mewn cyllid gan y Bwrdd Iechyd effeithio'n andwyol ar y gwasanaeth hwn yn yr hirdymor, ond ar hyn o bryd defnyddir cronfeydd yr Hosbis i lenwi'r bwlch o ran gostyngiad.

Adolygiad gan Gymheiriaid 15 Mawrth 2013

Themâu Allweddol

Gan gyfeirio at ganllawiau ar Themâu Allweddol yn y canllawiau tystiolaeth, rhowch sylwadau yn cynnwys manylion cryfderau, meysydd i'w datblygu ac effeithiolrwydd cyffredinol y tîm. Dylid nodi unrhyw feysydd penodol o bryder neu o arfer da hefyd yn yr adrannau canlynol.

Strwythur a swyddogaeth y gwasanaeth

Rhowch sylwadau am arweinyddiaeth, aelodaeth, presenoldeb a threfniadau cyfarfodydd, polisiau gweithredol a llwyth gwaith. Dylai timau roi sylwadau penodol gan ystyried y cwestiynau canlynol:

- ***A yw pob aelod craidd allweddol wedi'i sefydlu?***
- ***A oes gan bob aelod craidd allweddol gymhwyster priodol mewn Gofal Lliniarol?***
- ***A oes Polisi Gweithredol wedi'i sefydlu?***
- ***A yw'r Tîm Amlddisgyblaethol yn cwrdd yn wythnosol ac yn cofnodi cyfarfodydd ar CANISC?***
- ***A oes protocol cyfathrebu?***
- ***Sawl atgyfeiriad/ derbyniad a dderbyniwyd i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol?***

Sefydliad y sector gwirfoddol yw Hosbis George Thomas a oruchwylir gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr fel Cyngor Rheoli. Mae'r Hosbis yn darparu Gofal Lliniarol Arbenigol mewn lleoliad Hosbis Ddydd ac yn y gymuned yn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Comisiynir y gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Arweinir y Gwasanaeth Clinigol gan Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Liniarol. Mae'r tîm clinigol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau codi arian y sefydliad o bryd i'w gilydd. Yn y tîm clinigol ceir: Ymgynghorwyr mewn Meddyginiaeth Liniarol, Cofrestrydd Arbenigol, 7 Nyrs Glinigol Arbenigol, 1 Gweithiwr Cymdeithasol, 1 Swyddog Hawliau Lles, 1 Ffisiotherapydd, 1 Therapydd Galwedigaethol, 1 Cynghorydd a chymorth clerigol meddygol. Mae Nyrs Glinigol Arbenigol arall ar fin cael ei phenodi.

Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac mae pob un yn mynd ymlaen i ddysgu theori arbenigol. Mae Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Cysylltiedig yn cysylltu â chydweithwyr proffesiynol eraill mewn swyddi tebyg, gan ddarparu cymorth i'w gilydd.

Ceir polisi Gweithredol a pholisi Atgyfeirio eglur a chryno, yn ogystal ag offeryn dibyniaeth i asesu angen a meini prawf rhyddhau ar sail adolygiadau rheolaidd o gleifion.

Cynhelir cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir CANISC i gofnodi'r holl wybodaeth.

Mae Polisi Cyfathrebu wedi ei sefydlu a rhoddir gwybod i feddygon teulu am gyfranogiad tîm Gofal Hosbis George Thomas yng ngofal y claf.

Ceir dros 550 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth bob blwyddyn, ar gyfartaledd.

Mae'r pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn cyfarfod bob chwarter.

Mae cofrestr rheoli risg wedi ei sefydlu.

Ceir rhaglen archwilio dreigl ar safonau.

Datblygir polisiau ychwanegol yn ôl yr angen ac maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae Cyfarfodydd Archwilio a Strategaeth Strwythuredig wedi eu sefydlu.

Gellir rheoli unrhyw ddigwyddiadau Llywodraethu Clinigol trwy gyfarfodydd adolygu perfformiad a gynhelir tair gwaith y flwyddyn gyda'r Bwrdd Iechyd.

Cydgysylltu llwybrau gofal/cleifion

A oes llwybr rheoli clir ar gyfer cleifion sydd angen rheoli symptomau cymhleth? e.e. Cywasgu Llinyn y Cefn Metastatig

Rhowch sylwadau ar gydgysylltu gofal a llwybrau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, Arweiniad clinigol a chyfathrebu

Llwybr Cleifion: Mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau'n dod o wasanaethau gofal sylfaenol. Derbynnir atgyfeiriadau drwy'r Swyddog Gwasanaethau Craidd neu'r Nyrs Glinigol Arbenigol sy'n cysylltu â'r meddyg teulu a derbynnir y claf i'r gwasanaeth.

Fel arfer, mae pob claf newydd yn gweld, ac yn cael ei asesu gan, Ymgynghorydd/Cofrestrydd Arbenigol a'r Nyrs Glinigol Arbenigol ar y cyd ar adeg yr ymweliad cyntaf. Yna, bydd y tîm yn cydgysylltu â'r meddyg teulu. Gwelir achosion brys o fewn dau ddiwrnod gwaith, ac achosion arferol o fewn pum diwrnod gwaith.

Mae llwyth achos Nyrs Glinigol Arbenigol yn 45 ar gyfartaledd, gan ddefnyddio offeryn dibyniaeth lleol i asesu angen.

Adolygir llwythi achos yn rheolaidd er mwyn gallu rhyddhau cleifion sydd wedi bod yn sefydlog am 6 mis.

Mae'r atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai canser yn cynrychioli 17.6% o'r llwyth achos cyffredinol.

Trafodir y cyfraddau atgyfeirio'n rheolaidd gyda'r Bwrdd Iechyd mewn cyfarfodydd Adolygu Perfformiad chwarterol.

Mae'r cyfarfodydd chwarterol gyda'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys arweinydd y Bwrdd, y rheolwr cyllid a'r arweinydd gweithredol.

Blaenoriaethau Gofal Integredig: Tîm Gofal yr Hosbis sy'n arwain archwiliadau marwolaeth lleol. Maent yn gweithio'n agos gyda Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r cysylltiadau gyda'r Nyrsys Ardal yn dda ac mae'r holl elfennau ymarferol wedi eu sefydlu yn y cartref i gefnogi

“Man Gofal o Ddewis.” Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar gael. Ceir diffyg ‘Gofal Ymarferol’ ond mae strategaeth ar waith i lenwi unrhyw fylchau trwy weithio’n ddi-dor gyda sefydliadau partner i gynnig gwasanaeth cynhwysfawr e.e. Canolfan Ganser Felindre a gwasanaethau cymunedol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol megis Deieteg.

Profiad Cleifion

Rhowch sylwadau am brofiad cleifion a chael adborth ar brofiad cleifion, cyfathrebu â chleifion a gwybodaeth ar eu cyfer a mentrau cymorth cleifion eraill. Dylai timau roi sylwadau penodol ynglŷn â:

- ***Pa drefniadau sydd ar waith i gefnogi rhyddhau/ derbyn cleifion yn gyflym ar ddiwedd oes?***
- ***Beth yw canlyniadau'r adborth o'r arolwg profiad cleifion cenedlaethol (iwantgreatcare)?***

I want great care (IWGC): Rhoddir arolwg IWGC i bob claf i’w lenwi. Mae’r rhai a ddychwelwyd yn nodi lefel uchel o fodlonrwydd ymhlith y cleifion.

Cynhelir arolwg blynyddol o fodlonrwydd cleifion yn ogystal, ac mae hwn hefyd yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd ymhlith y cleifion.

Rhoddir sylwadau i’r tîm o’r arolygon bodlonrwydd cleifion. Ceir cylch adborth ac archwilio ac adroddir y canlyniadau i’r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

Mae cysylltiadau gyda Nyrsys Ardal yn dda ac mae’r holl elfennau ymarferol wedi eu sefydlu yn y cartref i gefnogi Man Gofal o Ddewis. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar gael. Y bwllch yn y gwasanaeth yw gwasanaeth Hosbis yn y Cartref lleol.

Rhoddir taflenni gwybodaeth i bob claf.

Mae’r hosbis yn gweithio i ymdrin â’r diffyg o ran derbyn gofal lliniarol yn y gymuned gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Gwella Gofal, Cyflawni Canlyniadau

- Archwiliad. Enghraifft: Archwiliad o Gartrefi Nyrsio – Nyrsys ddim yn deall y Broses o Farw. Arweiniodd tîm gofal yr hosbis y gwaith o gefnogi staff Cartrefi Nyrsio i siarad â chleifion a pherthnasau. Mae hyn wedi arwain at fwy o gleifion yn aros yn y Cartref ar Ddiwedd eu Hoes. Lleihad mewn galwadau 999 a mwy o gynllunio Gofal ymlaen llaw i gefnogi'r gallu i gael dewis o ran Man Gofal o Ddewis. Y cam nesaf fydd ehangu hwn i fwy o Gartrefi Nyrsio.
- Treialon Clinigol: cyfarfod gyda thîm gofal yr hosbis yn rheolaidd ac yn anfon e-bost i nodi cleifion. Un claf sydd yn y treialon. Mae rhai cleifion eisoes mewn treialon pan fyddant yn cael eu hatgyfeirio. Mae un nyrs yn cymryd rhan mewn astudiaeth dreialu ar hyn o bryd.
- Cofnodir effeithiolrwydd ymyraethau rheoli symptomau trwy STASS.
- Archwiliad STASS wedi ei sefydlu ers 2009, gan nodi sgorau symptomau rhwng yr ymweliad cyntaf a'r olaf.

Sylwadau'r Comisiynwyr

Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

- Mae tîm gofal yr hosbis yn mynychu Grŵp Gweithredu Gofal Lliniarol.
- Aelodau sy'n cymryd rhan yng Ngrŵp Llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.
- Cymryd rhan mewn cynllunio gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.
- Ceir rhwng 20 a 40 o atgyfeiriadau bob mis gan ddarparwyr gofal eilaidd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir ac mae tystiolaeth bod gwaith ar y cyd wedi ei sefydlu'n dda trwy gyfarfodydd rheoli perfformiad a chyfarfodydd Llywodraethu Clinigol. Gellir trafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder trwy'r Grŵp Gweithredu Gofal Lliniarol Lleol. Mae cynllun strategol wedi ei sefydlu ac mae tîm gofal yr hosbis yn rhan annatod o hwn.

Sylwadau Tîm George Thomas

- Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro fel yr unig gomisiynwyr: O'r farn bod cyfathrebu da wedi ei sefydlu gyda chyfarfodydd bob chwarter sy'n cefnogi gweithio ar y cyd da.
- Mae tîm gofal yr hosbis yn defnyddio CANISC, ond yn credu y byddai'n fwy defnyddiol pe byddai'n gallu cynhyrchu llythyrau.
- Cysylltiadau gyda Nyrsys Ardal yn dda a'r holl elfennau ymarferol wedi eu sefydlu yn y cartref i gefnogi Man Gofal o Ddewis, ond nid oes digon o adnoddau ar gael. Y bwlch yn y gwasanaeth

yw gwasanaeth Hosbis yn y Cartref lleol.

- Arolygon Iwantgreatcare: Byddai'n ddefnyddiol i nodi ymatebion I want great care yn fwy manwl er mwyn gallu eu dehongli'n well.
- Bydd gostyngiad o 5% yng nghyllid y Bwrdd Iechyd yn ystod blwyddyn ariannol 2013-2014. Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ei ystyried yn wasanaeth craidd ac yn wasanaeth nad yw'n un craidd e.e. Ni fyddai gweithiwr cymdeithasol yn wasanaeth craidd. Mae adran llywodraethu ariannol y sefydliad yn nodi bod y gwasanaethau'n gynaliadwy ond gallai hyn effeithio ar wasanaethau 'ar lawr gwlad', sy'n gweithio i eithaf eu gallu.

Adolygiad o Nodiadau Achos

Adolygwyd 6 chyfres o nodiadau achos.

Roedd yr holl nodiadau wedi eu gosod yn dda, yn rhwydd eu deall a chyda tystiolaeth o gynllunio gofal da. Roedd yr holl nodiadau wedi eu llofnodi ac roedd enwau wedi eu nodi mewn priflythrennau wrth ochr y llofnod.

Arfer Da

Nodwch unrhyw feysydd o arfer da

Arfer Da/Cyraeddiadau Arwyddocaol:

- Defnyddio Cylch Archwilio i wella gwasanaethau.
- Cymorth proffesiynol wedi ei nodi ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Cysylltiol.
- Perthynas waith wych â'r Bwrdd Iechyd – tystiolaeth drwy Adolygiadau Perfformiad bob chwarter.
- Enghraifft o waith ar y cyd i ddarparu Nyrs Glinigol Arbenigol sy'n gweithio saith niwrnod yn y gymuned.
- Cysylltiadau â thîm Treialon Clinigol.

Meysydd i'w Hystyried

- Adolygu'r Siart Trefniadaethol.
- Mae gan yr Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol lwyth gwaith sylweddol; byddai angen adolygu'r patrymau gwaith pe byddai unrhyw gynnydd mewn atgyfeiriadau, er mwyn sicrhau nad oes gormod o lwyth gwaith gan yr ymgynghorydd a bod ei harbenigedd clinigol yn parhau i gael ei

ddefnyddio er budd gorau'r cleifion.

- Gallai gostyngiad o 5% mewn cyllid gan y Bwrdd Iechyd effeithio'n andwyol ar y gwasanaeth hwn yn yr hirdymor.

Casgliadau Cyffredinol

Defnyddir polisi Gweithredol a pholisi Atgyfeirio eglur a chryno, yn ogystal ag offeryn dibyniaeth i asesu angen a meini prawf rhyddhau sydd wedi eu seilio ar adolygiadau rheolaidd o gleifion. Cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir CANISC i gofnodi'r holl wybodaeth. Mae pob claf newydd yn gweld yr Ymgynghorydd/Cofrestrydd Arbenigol a Nyrs Glinigol Arbenigol ar y cyd. Trafodir pob claf newydd yng nghyfarfod wythnosol y Tîm Amlddisgyblaethol a chytunir ar gynllun gofal. Rhoddir gwybod i feddygon teulu am gyfranogiad tîm Gofal Hosbis George Thomas yng ngofal y claf. Adolygir cleifion yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol fel bo'r angen. Adolygir llwyth achosion pob Nyrs Glinigol Arbenigol bob mis. Dywedodd y tîm y ceir systemau cyfathrebu cadarn â darparwyr gwasanaeth gofal lliniarol lleol eraill, sef Canolfan Ganser Felindre a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Roedd amrywiaeth o archwiliadau ar gael, sy'n dangos tystiolaeth o ddefnydd da o archwilio clinigol i sbarduno gofal.

Mae Tîm Gofal Hosbis George Thomas yn wasanaeth gwych gydag arweinyddiaeth glinigol gref. Darperir y gwasanaeth o fewn fframwaith cadarn o Lywodraethu Clinigol ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr lleol eraill a Chomisiynwyr y Bwrdd Iechyd. Mae llawer o feysydd o arfer da y gellir eu rhannu, yn enwedig yr ymrwymiad i Archwilio a'r defnydd ohono i newid arferion gwaith.

Pryderon

Cyfeiriwch at y canllawiau ar nodi pryderon. Mae'n rhaid tynnu sylw'r tîm craidd at unrhyw risgiau brys neu bryderon difrifol ar unwaith.

Risgiau Brys a Nodwyd? Dim

Pryderon Difrifol:

Risgiau Brys a Nodwyd? Dim

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi ar adeg yr ymweliad a rhaid i'r tîm adolygu llawn gyuno arni

Nodi Pryderon – Materion

Mater	Lefel y Pryder Risg Uniongyrchol , Pryder Difrifol, Pryder	Beth yw'r pryder penodol?